Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Y CANLLAWIAU A'R RHEOLIADAU STATUDOL Y BYDD EU HANGEN I WEITHREDU'R DDYLETSWYDD GONESTRWYDD

Rhagfyr 2022

Cyflwyniad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Canllawiau a'r Rheoliadau Statudol y bydd eu hangen i weithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Mae'r Comisiynydd yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i hybu datblygiad diwylliant agored, a chyfathrebu agored a gonest â phobl sydd wedi dioddef mwy nag ychydig o niwed, o fewn GIG Cymru a'r sector gofal iechyd annibynnol. Mae'n hanfodol cael dull system gyfan i fod yn agored a gonest pan fydd unigolyn yn dioddef niwed.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi taflen a fideo i roi gwybod i'r cyhoedd am y ddyletswydd newydd a'r hyn mae'n ei olygu iddynt. Mae'n bwysig bod datblygiad y cyfathrebiadau hyn yn cynnwys eu treialu ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys pobl hŷn, i sicrhau eu bod yn effeithiol.

Byddai'r Comisiynydd yn hapus i ddosbarthu'r adnoddau hyn i bobl hŷn drwy ei rhwydweithiau. Rhaid i'r canlyniad olygu y bydd pobl hŷn yn hyderus y bydd proses y Ddyletswydd Gonestrwydd yn gweithio mewn ffordd effeithiol a chefnogol.

Lefel niwed

Mae Tîm Cyngor a Chymorth y Comisiynydd yn cael ymholiadau gan bobl hŷn sydd wedi dioddef niwed ac sydd wedi eu gadael mewn trallod meddyliol a chorfforol mawr. Mae swyddfa'r Comisiynydd hefyd yn cael ymholiadau gan berthnasau a ffrindiau a allant eu hunain ddioddef niwed i'w llesiant meddyliol oherwydd yr hyn sydd wedi digwydd i'w hanwyliaid ac oherwydd y canlyniadau iddynt hwy eu hunain ac i ansawdd eu bywyd, er

For further information, please contact:
Name, Job Title: Valerie Billingham, Health and Care Lead
03442 640 670 // email address Valerie.billingham@olderpeople.wales

enghraifft, pan na fydd un annwyl bellach yn gallu gweithredu yn yr un ffordd ag yn y gorffennol a bod angen gofal a chymorth ychwanegol arnynt.

Mae'r Comisiynydd eisoes yn pryderu am yr effaith ar bobl hŷn, teuluoedd a gofalwyr y mae disgwyl iddynt gymryd eu perthnasau o'r ysbyty i ofalu amdanynt gartref. Mae llawer o ofalwyr di-dâl yn bobl hŷn eu hunain, sydd eisoes yn dioddef o un neu fwy o gyflyrau iechyd eu hunain, ac sydd yn awr yn dioddef effaith ychwanegol yr argyfwng costau byw.[1] Os bydd perthynas sy'n dychwelyd adref o ysbyty wedi dioddef niwed, mae hyn yn golygu mwy o bwysau ar deuluoedd, a gofalwyr yn fwyaf arbennig.

Mae'n hanfodol, wrth ystyried a yw lefel y niwed yn ddigon i sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd, bod Byrddau Iechyd yn ystyried yr effaith ar iechyd meddwl y defnyddiwr gwasanaeth ac ar iechyd meddwl y rhai sydd agosaf atynt, a all hefyd fod wedi'u heffeithio'n ddifrifol.

Hysbysiad uniongyrchol

Mae'r Comisiynydd yn cytuno y dylai pobl sydd wedi dioddef niwed sy'n sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd gael eu hysbysu'n uniongyrchol, drwy alwad fideo neu dros y ffôn yn y lle cyntaf, a dylai Byrddau Iechyd ystyried amgylchiadau a hoffterau'r unigolyn yn ofalus.

Mae'r cyflymu a welwyd yn y defnydd o dechnoleg ddigidol yn ystod y pandemig Covid-19 hefyd yn dangos yr angen am sensitifrwydd wrth gael sgyrsiau ar-lein neu dros y ffôn â phobl hŷn a all fod yn rhai poenus. Pan fydd sgwrs o'r fath yn cael ei chynnal o bell, mae'n cyrraedd yr unigolyn yn eu cartref ac mewn ffordd mi all ymwthio i mewn i'w man diogel a'u noddfa. Ar ddiwedd y sgwrs, mi all yr unigolyn cael eu gadael ar eu pen eu hunain i brosesu gwybodaeth a all fod yn drallodus dros ben, ac mi all hynny achosi rhagor o niwed i'w llesiant meddyliol. Mae pobl hŷn mewn mwy o risg o ddioddef unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol oherwydd bod y trothwyon allweddol, fel profedigaeth, ymddeoliad, rhoi'r gorau i yrru, ymgymryd â rôl gofalu a dyfodiad gwaeledd, yn fwy cyffredin yn hwyrach mewn bywyd,[2] ac mae'n bosibl na fydd ganddynt neb i droi atynt am help. Mae'n hanfodol bod amgylchiadau personol pobl hŷn yn cael eu hystyried yn ofalus wrth gynllunio'r hysbysiad uniongyrchol. Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau eu bod yn gwneud popeth posibl i leihau unrhyw amhariad ar gysur a diogelwch amgylchedd cartref pobl a sicrhau bod gan yr unigolyn rywun wrth law ar y pryd i'w cynnal.

Yn olaf, nid yw 33% o bobl dros 75 oed a 13% o bobl 65-74 yn defnyddio'r rhyngrwyd.[3] Hyd yn oed pan fydd gan bobl ddefnydd o'r rhyngrwyd, ni fyddant o reidrwydd yn ddefnyddwyr hyderus. Mae'n bwysig felly cydnabod y perygl o allgau'r rhai na ellir cysylltu â hwy yn y modd hwn, neu nad ydynt yn dewis ei ddefnyddio. Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi **Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd ym mis Tachwedd**

2021 – 'Sicrhau mynediad at wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol' – sy'n disgrifio'r math o gamau y dylai byrddau iechyd fod yn eu cymryd fel y bydd pobl na allant (neu nad ydynt yn dymuno) mynd ar-lein yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt drwy ddulliau heblaw digidol, ac i helpu pobl hŷn i fynd ar-lein. Mae'r Comisiynydd yn argymell fod canllaw Llywodraeth Cymru ar y Ddyletswydd Gonestrwydd yn cynnwys cyfeiriad at ei chanllaw hi ar fynediad at wybodaeth a gwasanaethau.

Byddai'r Comisiynydd a'i thîm yn hapus i gael trafodaeth bellach ar y sylwadau hyn.

Nodiadau

[1] Gofalwyr Cymru, PAPUR POLISI: Yr argyfwng costau byw i ofalwyr di-dâl yng Nghymru, Hydref 2022 cost-of-living-summer-2022-eng-final-version (1).pdf

[2] Llywodraeth Cymru, Cysylltu Cymunedau: Strategaeth i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a chreu cysylltiadau cymdeithasol cryfach, Chwefror 2020 38912 Cysylltu Cymunedau: Strategaeth Unigrwydd (llyw.cymru)

[3] Comisiynydd Pobl Hŷn, Deall poblogaeth Cymru sy'n heneiddio: ystadegau allweddol, Awst 2022 Deall Poblogaeth Cymru sy'n Heneiddio: 23-Awst.pdf (comisiynyddph,cymru)

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n llais annibynnol ac mae'n hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i warchod hawliau pobl hŷn, i roi terfyn ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oedran, i atal cam-drin pobl hŷn ac i alluogi i bawb heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i gael Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae eu hawliau'n cael eu diogelu a lle nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: gofyn@comisiynyyph.cymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @comisiwnphcymru